# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Iau 21 Tachwedd 2019**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Walter Williams

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Pearl Evans

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Einir Williams.
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyngr. Linda Brown, Gwilym Owen, Paul Rowlinson a Rheinallt Puw.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6, Partneriaeth Ogwen: Y Cyngr. Neville Hughes a Griff Morris.

**3. Materion Brys**
**Lloches bws Sgwar Rachub** – penderfynwyd anfon cais at Cyngor Gwynedd i osod lloches cantilever heb seti ar y safle.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2019, yn ddarostyngedig i Eitem 9-Lloches bws Braichmelyn – angen ychwanegu '...*y Cyngor am oedi ac ystyried eu penderfyniad ymhen chwe mis'.*

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1** Offer cae chwarae Pantdreiniog **–** Penderfynwyd rhoi hawl i'r Cadeirydd a'r Clerc a'r is-bwyllgor i symud ymlaen gyda hyn. Y Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod i drafod y prisiau. Bydd angen i'r Is-bwyllgor a'r Pwyllgor Cyllid drafod y ffigyrau ymhellach.
**5.2** Arwyddion newydd Ogwen Bank – arwyddion mawr uniaith Saesneg wedi eu gosod ar ochr y ffordd. Y Clerc i holi am ddiweddariad.
**5.3** John Street – penderfynwyd holi Cyngor Gwynedd am arwydd 'mynediad i drigolion yn unig' ar gyfer y stryd. Yn anffodus, nid yw hyn yn bosib gan bod hi'n ffordd gyhoeddus.
**5.4** Cyffordd A5 ger Copa – problem gweledd gan bod coeden wedi gordyfu yn gardd 87 Stryd Fawr. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.
**5.5** Cyffordd A5 Lôn Newydd Coetmor- cyffordd perygl i dynnu allan i'r ffordd. Y Clerc i fynegi pryder gyda Cyngor Gwynedd.

**5.6** BT – ymgynghoriad ynglŷn a dileu ciosgau yn yr ardal. Y ciosg wrth Londis ar y rhestr, y Cyngor yn gwrthwynebu. Y Clerc i wirio sefyllfa y ciosg yn Godre'r Gaer, Carneddi. Hefyd cafwyd adroddiad bod rhybydd wedi ei osod yn y ciosg o flaen yr hen siop Spar. Y Cyngor yn gwrthwynebu dileu'r ddau yma hefyd.
**5.7** Cyfeillion Ysbyty Gwynedd – gwahoddiad i'r gwasanaeth Nadolig i ddathlu penblwydd 50 y gymdeithas. I'w gynnal yng Nghapel Carmel dydd Sul 1af o Ragfyr am 3.00yh. Y Cadeirydd ar gael i fynychu'r gwasanaeth.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Penderfynwyd derbyn yr adroddiad ysgrifenedig am holl brosiectau'r Bartneriaeth. Adroddwyd bydd y Bartneriaeth angen ail-edrych ar gytundebau'r Cynghorau Cymuned ar gyfer 2020 ymlaen.

**7. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**
Grŵp llywio Cefnfaes – adroddwyd bod cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer wythnos nesaf.
Sul y Cofio – nifer o bobl wedi mynychu'r gwasanaeth, ond bechod nad oedd yr heddlu wedi atal y traffig.
Balchder Bro – cais gan y Cyng. Neville Hughes i dynnu'r basgedi crog, ac am ddarparu rhestr o pa rai i'w tynnu.

**8. Cyfethol aelod i sedd wag Rachub**
Derbyniwyd dau gais am y sedd wag. Yn dilyn pleidlais, cafodd Michael Williams ei gyfethol i'r sedd wag.

**9. Maes Parcio Gerlan**
Adroddwyd bod y cais cynllunio wedi ei gyflwyno i Cyngor Gwynedd.

**10. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Tachwedd 2019'
**10.1** E-bost gan Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd – meysydd chwarae yn ein cymuned. Cyngor Gwynedd yn awyddus i drosglwyddo'r caeau chwarae i gynghorau cymuned neu grwpiau cymunedol oherwydd toriadau i'w cyllid. Y Cyngor yn ffafrio gweithio mewn partneriaeth. Yn hapus mewn egwyddor yn ddibyniadwy ar y gost, cyfrifoldebau a'r amodau fydd ynghlwm.
**10.2** E-bost gan Up Hill Down Dale yn ein hysbysu am ddigwyddiad rhedeg ar y Llwybr Llechi mis Chwefror 2020. Penderfynwyd holi tua faint o bobl fydd yn cymryd rhan, pa lwybr fydd yn cael ei ddefnyddio ac os bydd arwyddion dwy-ieithog yn cael eu defnyddio.
**10.3** Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – datganiad ysgrifenedig. Nodwyd yr ohebiaeth.
**10.4** E-bost gan Simon Rogers, Canolfan Ymwelwyr Ogwen – gwahoddiad am baned a mins pei i glywed am y cynlluniau ar gyfer gwelliannau i'r ganolfan, fydd yn cael ei gynnal dydd Mawrth 3ydd o Ragfyr am 3.30yh. Croeso cynnes i bawb.

**11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

**C18/1159/13/AM**

| | |
|---|---|
| Y Wern, Hen Fferm Gerlan | Codi 4 tŷ newydd, lôn mynediad a mynediad newydd<br>**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau drosodd |

**C19/0899/13/LL**

| | |
|---|---|
| 16 Ystad Coetmor, Bethesda | Estyniad deulawr ar gefn y tŷ<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau |

**<u>Ceisiadau</u>**
**19NMCSC002 02 01A**

| | |
|---|---|
| Tesco, Stryd Fawr, Bethesda | Ymgynghoriad anffurfiol ynglŷn a gosod llinellau melyn<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad i osod y llinellau o flaen y siop yn unig, ac bod hefyd angen sylw i'r gwrychoedd sydd wedi gor-dyfu yn 1-3 Adwy'r Nant sydd yn cyfyngu lled y palmant. |

**Y19/001659**

| | |
|---|---|
| 5 Rhes Victoria, Bethesda | Newid defnydd i fflat<br>**Penderfyniad:** Gwrthwynebu-digon o alw gan fusnesau am ofod masnachol |

**12. Taliadau**

<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Tachwedd) | £284.57 |
| CThEM (Tachwedd) | £71.20 |
| British Gas – Llys Dafydd | £38.99 |
| C Jackson – llenwi biniau halen | £175.00 |
| Partneriaeth Ogwen – Gwasanaeth Clercio | £15063.39 |
| Partneriaeth Ogwen – Swyddog Cynnal | £3991.43 |
| Cyngor Gwynedd – toiledau cyhoeddus | £4000.00 |
| Cyngor Gwynedd – Gwasanaeth Archwilio Mewnol | £264.00 |
| Scottish Power - golau Nadolig | £46.55 |
| Scottish Power – golau Nadolig | £36.05 |
| Scottish Power – Trydan Gorffwysfan | £52.96 |